



27.9.2011

Annwyl Riant/Warcheidwad

## Parcio Ceir Rhieni a Gollwng/Codi Disgyblion

Mae'r drefn yma yn yr ysgol o ran parcio ceir a gollwng/codi disgyblion yn/o'r ysgol wedi ei sefydlu a'i hadolygu ar y cyd â'r swyddogion sirol perthnasol a'r heddlu er mwyn gwneud ein gorau i warchod diogelwch pawb. Amlinellaf isod y drefn yn gryno ac apeliaf yn garedig am gydweithrediad pob rhiant, os gwelwch yn dda.

1. Ymweld â'r Ysgol - ar gyfer cyfarfod, a.y.y.b.
  - rhieni i barcio yn y maes parcio pellaf, yr un ger y cae bob tywydd.
2. Gollwng Disgyblion yn yr Ysgol - unrhyw adeg yn y bore neu yn ystod y dydd
  - rhieni i droi i mewn i'r bae bysiau gan ddilyn y drefn unffordd, gollwng y disgyblion ger y pafin a gadael heb oedi
  - peidiwch gollwng disgyblion ar y ffordd fawr nac yn y meysydd parcio.
3. Codi Disgyblion o'r Ysgol
  - rhieni i ddefnyddio'r bae bysiau yn ystod y dydd hyd at 3.00pm neu ar ôl 3.30pm - ni ddylid defnyddio'r bae bysiau rhwng 3.00pm a 3.30pm gan y bydd y bysiau ysgol yno
  - disgyblion i aros ar iard yr ysgol hyd nes bydd eu rhieni wedi dod i mewn i'r bae bysiau
  - dim defnyddio maesydd parcio'r ysgol i godi disgyblion
  - dim parcio ar y llinellau melyn ar y ffordd fawr ger y bae bysiau i godi disgyblion.

O weithredu'r uchod yn gyson, hyderaf y gallwn warchod diogelwch pawb o fewn rheswm. Mae croeso i chi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw bryderon perthnasol neu os ydych eisiau mwy o wybodaeth.

Diolch yn fawr iawn am eich cydweithrediad.

Yn gywir,  
*Eifion Jones*

Eifion Jones  
Prifathro